

CYFARFOD	PWYLLGOR PENSIYNAU
DYDDIAD	26ain MEHEFIN 2023
TEITL	DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU
PWRPAS	I dderbyn a nodi diweddariad chwarterol gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru
ARGYMHELLIAD	Nodi a derbyn y wybodaeth
AWDUR	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

1. CYFLWYNIAD

Mae hwn yn adroddiad newydd rheolaidd sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Pwyllgor Pensiynau ar y gwaith a wneir gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PCC) ar ran yr wyth cronfa CPLIL yng Nghymru.

Mae PPC bellach wedi'i hen sefydlu, gyda Link Fund Solutions wedi'i benodi fel gweithredwr i ddarparu gwasanaethau a reoleiddir gan yr FCA a Russell Investments sy'n darparu opsiynau buddsoddi ar gyfer asedau rhestredig. Northern Trust yw'r ceidwad byd-eang penodedig. Hymans Robertson yw'r cynghorydd llywodraethu a goruchwylio ac mae Robeco yn darparu gwasanaethau pleidleisio ac ymgysylltu i PPC yn unol â'i gyfrifoldebau a'i ymrwymiadau stiwardiaeth.

2. DIWEDDARIAD CHWARTERTOL CYD- BWYLLGOR LLYWODRAETHU (CLI)

Cynhaliwyd cyfarfod y Cydbwyllgor Llywodraethu (CLI) sef corff gwneud penderfyniadau y Bartneriaeth, yn ffurfiol ar 29ain Mawrth 2023. Mae'r awdurdod lletya wedi darparu crynodeb o'r eitemau a drafodwyd yn y cyfarfod hwnnw sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn. Mae Cynllun Hyfforddi PPC ar gyfer 2023/24 hefyd ynghlwm, fel Atodiad 2, gyda'r digwyddiadau hyfforddi rhithiol sydd hyn yn agored i aelodau'r Pwyllgor Pensiynau (a'r Bwrdd Pensiwn) gyda gwahoddiadau i'w hanfon ymlaen pan fydd amseroedd a dyddiadau wedi'u cadarnhau.

3. DIWEDDARIAD GWEITHREDWR

Mae copi o'r diweddariad chwarterol diweddaraf gan Link Fund Solutions wedi'i atodi o dan atodiad 3.

Mae'r diweddariad yn rhoi cipolwg o'r ystod lawn o is-gronfeydd buddsoddi PPC ar 31ain Rhagfyr 2022.

Ar hyn o bryd mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn buddsoddi mewn chwech o'r deg is-gronfa ac ar 31 Rhagfyr 2022 roedd y rhain fel a ganlyn:

- **Cyfleoedd Byd-Eang - £440.4m**
- **Twf Byd- Eang- £404.8m**
- **Marchnadoedd Datblygol - £56.3m**

- **Goddefol Byd-Eang - £765.3m**
- **Credyd Aml Ased - £179.8m**
- **Strategaeth Bond Absoliwt- £357.3m**

Er mwyn gweithredu dyraniad asedau strategol diwygiedig y Gronfa, mae'r Gronfa wedi buddsoddi'n ddiweddar yn y Gronfa Credyd Byd- Eang a fydd yn cael ei gynnwys yn y diweddariad gweithredwr nesaf.

4. ADRODDIADAU PERFFORMIAD AR 31AIN RHAGFYR 2022

Mae'r adroddiadau perfformiad i'w gweld yn atodiad 4.

Yn ystod y chwarter hyd at 31 Rhagfyr cofnododd Mynegai Net y Byd MSCI ei chwarter cadarnhaol cyntaf mewn blwyddyn a hwn oedd y chwarter cryfaf ar gyfer y mynegai ers pedwerydd chwarter 2020. Rhagwelir cynnydd arafach mewn cyfraddau llog y dyfodol roedd data chwyddiant meddalach na'r disgwyl wedi rhoi hwb i frwdfrydedd buddsoddwyr.

Mae perfformiad is-gronfeydd Gwynedd yn cael eu monitro gan swyddogion ac fel rhan o adolygiad buddsoddiad chwarterol gan Hymans Robertson ac nid oes pryderon wedi ei nodi.

5. DATBLYGIADAU Y DYFODOL

- Mae dyddiad lawnsio y gronfa PPC Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy wedi'i osod ar gyfer diwedd mis Mehefin 2023, ac mae'r trafodion pontio yn digwydd ar hyn o bryd.
- Mae'r gwaith o ymuno ag is-gronfa Credyd Preifat PPC ac isadeiledd caeedig bellach wedi'i gwblhau ac mae'r gwaith yn parhau gyda'r is-gronfa isadeiledd penagored yn parhau.
- Ynghyd â chwech o Gronfeydd CPLIL eraill Cymru, mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi tanysgrifio i brosiect Fferm Wynt Cymru Capital Dynamics. Cyfanswm y buddsoddiad yw £10m ac mae'n dangos yr ymrwymiad i fuddsoddi mewn prosiectau ynni adnewyddadwy ac yng Nghymru.
- Unwaith y bydd y gweithgaredd gyda'r is-gronfeydd hyn wedi'i gwblhau, bydd sylw PPC yn troi at lawnsio is-gronfa Ecwiti Preifat PPC a datblygu datrysiadau eiddo. Mae Schrodgers wedi'i benodi fel dyranwr ar gyfer yr is-gronfa Ecwiti Preifat.

6. ARGYMHELLIAD

I dderbyn a nodi y gwybodaeth.